



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru)

**Atodiad i'r Canllaw mewn perthynas â
chyllid sydd bellach ar gael i bartneriaid lechyd a Gofal Cymdeithasol
i gefnogi'r ymateb i ddwysâd COVID-19.**

Cyhoeddwyd 30 Ebrill 2020

TROSOLWG

Mae £10 miliwn ychwanegol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r ymateb i ddwysâd Covid-19. Bydd y cyllid hwn yn ategu cyllid a gyhoeddwyd eisoes (Awdurdodau Lleol – £40 miliwn ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion; y Trydydd Sector – Cronfa Cadernid Trydydd Sector gwerth £24 miliwn; cyllid ychwanegol i'r GIG yng Nghymru, £100 miliwn i gefnogi busnesau yng Nghymru), a Chynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU a fydd yn cynorthwyo cyflogwyr i gael gafael ar gyllid i gefnogi costau ffyrlo (dolen:

<https://www.gov.uk/government/collections/financial-support-for-businesses-during-coronavirus-covid-19>).

Wrth ddefnyddio'r cyllid hwn, mae'n rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru) (dolen:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-o-ysbyty-covid-19.pdf>) yn benodol adran 9 (Cymorth Cyllid):

“Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu dadansoddiad cyflym o'r adnoddau sydd eu hangen i alluogi cymunedau iechyd a gofal cymdeithasol i ariannu cost y pecynnau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol y tu allan i'r ysbyty newydd neu estynedig y cyfeirir atynt yn y canllaw hwn.

Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu gyda Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn fuan ac ni ddylai hyn greu oedi cyn gweithredu'r canllawiau yn y cyfamser.”

Sianelir y cyllid trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), gan ddefnyddio'r Gronfa Gofal Integredig fel proses alluogol; mae'r dosbarthiad fel a ganlyn:

Cyfanswm ar gael / BPRh	Opsion A: Cyfrifiadau'r Uned Gyflawni (UG)	
£10,000,000	Cleifion Bwrdd lechyd fel canran o'r holl gleifion	£10 miliwn wedi'i ddyrannu gan ddefnyddio'r cynigion yr UG
Gwent	18.20%	£1,819,724
Gogledd Cymru	24.41%	£2,440,893
Caerdydd a'r Fro	12.51%	£1,250,875
Cwm Taf Morgannwg	13.40%	£1,340,282
Gorllewin Cymru	14.17%	£1,416,595
Powys	5.38%	£538,016
Gorllewin Morgannwg	11.94%	£1,193,614
Cyfanswm	100.00%	£10,000,000

Mae'r cyllid hwn yn ddarostyngedig i'r amodau allweddol canlynol:

- Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r cyllid hwn i gefnogi eu hymateb rhanbarthol, cydlynol uniongyrchol i Covid yn unig; a
- Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydymffurfio ag adroddiadau llai manwl sy'n canolbwyntio ar Covid er mwyn cynnal trywydd archwilio/llywodraethiant sylfaenol a hwyluso cysoni ôl-Covid.

Fel y gwyddoch, mae'r £11m sy'n weddill yn y Gronfa Trawsnewid wedi'i drosglwyddo i gronfa ymateb ganolog Covid. Gan fod y cyllid newydd hwn ar gyfer yr ymateb dwysâd, gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu defnyddio'r arian hwn ar gyfer y gweithgaredd a gynigir yn eu cynigion diwygiedig i'r Gronfa Trawsnewid cyn belled â bod y gweithgareddau'n bodloni'r amodau uchod.

BETH SY'N CAEL EI GEFNOGI?

Gwneud y gorau o annibyniaeth ar ôl derbyniadau Covid-19

Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd y model adfer wrth gefnogi annibyniaeth ac ansawdd bywyd, ac o wneud y gorau o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd adnoddau cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol. (Gweler er enghraifft waith yr Athro John Bolton o'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Newton Europe a Phrifysgol Newcastle). Mae **Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau o Ysbyty COVID-19 (Cymru)** yn ceisio hwyluso'r broses o weithredu'r *Model Rhyddhau i Adfer ac Asesu*, gyda'r bwriad o:

- Osgoi gwaethygu cyflwr a cholli hyder oherwydd arosiadau hir yn yr ysbyty;
- Lleihau'r perygl y bydd cleifion mewnol yn dod i gyswllt â'r haint;
- Gwneud y mwyaf o adferiad ac annibyniaeth;

- Lleihau pennu gormod o wasanaethau statudol 'er mwyn bod yn ddiogel' neu o ganlyniad i lesgedd;
- Darparu trosglwyddiad di-dor i gymorth tymor hwy yn y gymuned, os oes ei angen.

Byddai'r dystiolaeth yn awgrymu bod methu â chynnig adnoddau digonol i weithredu'n llwyddiannus ar y cam hwn yn debygol iawn o arwain at alw cynyddol a pharhaus ar wasanaethau gofal cymdeithasol ar ôl i'r pwysau ar ddarpariaeth gofal brys y GIG leihau (<https://ipc.brookes.ac.uk/publications.html>; <https://www.local.gov.uk/our-support/our-improvement-offer/care-and-health-improvement/efficiency-and-sustainability-adult-0>).

Mae'n bwysig peidio â thanbriso **effaith gronnus ar ofal cymdeithasol** (yn cynnwys y rhai sydd wedi cael eu gwarchod/ynysu yn y gymuned) erbyn diwedd y flwyddyn – mae maes gofal cymdeithasol yn debygol o deimlo'r effeithiau ymhell ar ôl i'r GIG ddychwelyd i weithredu yn ôl ei arfer.

[Cyflymu cynnydd cynlluniau rhyddhau sydyn](#)

Mae systemau lleol wedi ail-ganolbwyntio eu hadnoddau er mwyn gwella gwasanaethau cymunedol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at yr ymateb i Covid-19, gan alluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol. Mae hyn wedi arwain at gostau ychwanegol ar gyfer cyflymu cyflenwi, a gwella cynlluniau o'r ysbyty i'r cartref (rhyddhau'n sydyn) ac aros yn iach yn y cartref (atal derbyniadau) ychwanegol wedi galluogi cynnal capasiti ysbyty ar gyfer cymysgedd o gleifion sy'n dioddef o Covid-9 a chleifion nad ydynt yn dioddef o Covid-19.

[Agor capasiti gwelyau cymunedol ychwanegol](#)

Yn dilyn cymeradwyaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, mae rhaglen cyllido cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig eisoes wedi cael ei 'dargyfeirio' i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol, ac yn fwy hyblyg, ar ddarpariaeth gofal mwy dwys/llai dwys cymunedol ac offer, cymhorthion ac addasiadau cysylltiedig yng nghartrefi pobl. Nod hyn yw creu gallu i gefnogi'r ymateb i Covid-19 yn y gymuned, gan gynnwys capasiti gofal mwy dwys/llai dwys graddedig yn rhyngwynebu ag ysbytai maes. Byddai'r cyllid refeniw ychwanegol hwn yn cefnogi agor a gweithredu capasiti cymunedol ychwanegol ymhellach, er enghraifft trwy gynyddu gwelyau gofal mwy dwys/llai dwys yn y gymuned.

[Prynu offer i hybu annibyniaeth i'r eithaf a galluogi cyflymu cyflwyno dulliau gweithio sy'n cydymffurfio â Covid](#)

Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, trwy alluogi mynediad o bell i wasanaethau, gwybodaeth a chyngor hanfodol; mae'n cynnwys y gallu i gyfathrebu â gweithwyr allweddol, clinigwyr, a gweithwyr cymorth cymunedol ymhlith eraill.

Bydd cyllid hefyd yn cefnogi prynu offer ychwanegol fel *padbots*, dyfeisiau llaw, a chaledwedd i gefnogi cyfathrebu digidol a gwaith tîm rhithwir ar draws timau integredig, yn enwedig cyfathrebu â'r bobl fwyaf agored i niwed ac ymgynghoriadau o bell/rhithwir gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Ymhellach, wynebwyd costau ychwanegol i alluogi staff i weithio o bell a thrwy sianeli digidol i gefnogi cadw pellter cymdeithasol, hunanynysu, ac amddiffyn rhag haint.

Cyflymu cyflwyno gwasanaethau hanfodol yn y gymuned i leihau'r pwysau ar ofal sylfaenol ac eilaidd o ganlyniad i'r ymateb i Covid-19

Mae hyn yn cynnwys cymorth i bobl arbennig o agored i niwed fel plant a phobl ifanc sydd â phryderon iechyd meddwl, gofalwyr dibynyddion bregus, pobl ag anabledd dysgu, a'r teuluoedd dan sylw. O ran gofalwyr di-dâl, bydd Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr yn cael gwybod am gymorth ariannol ychwanegol o'r fath a bydd yn gweithio gyda chynrychiolwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar y defnydd gorau o adnoddau mewn perthynas â gofalwyr di-dâl. Mae darparu cymorth trwy sianeli amgen yn galw am fuddsoddiad rhanbarthol cyflym a phenodol mewn ffyrdd newydd o weithio. Cost offer, meddalwedd, caledwedd, deunyddiau printiedig ychwanegol, ac amser ychwanegol, ymdrechion ychwanegol i ddarparu bwyd i bobl nad ydynt yn gallu'i gael eu hunain – mae'n ofynnol i'r rhain naill ai gynyddu'n gyflym, neu gael eu gweithredu o'r newydd cyn gynted â phosibl. **Mae'n hanfodol i'r rhain allu cael eu darparu fel rhan o'r modelau cyfredol (er enghraifft, y rhai a ddatblygwyd o dan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid); fel arall, bydd yn rhaid i bartneriaid wneud cais am gymorth trwy amrywiaeth o wahanol gynlluniau, gan gostio amser gwerthfawr ac, o ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau, gan ei gwneud yn anodd iawn i grynhoi'r adnoddau gofynnol yn sydyn.** Gofynnwyd am fewnbwn polisi mewn perthynas â chymorth i'r trydydd sector a chymorth i awdurdodau lleol, a nodwyd nad oes risg o ddyblygu.

PA GYLLID ARALL SYDD AR GAEL?

- £40 miliwn i ddarparwyr gofal cymdeithasol i oedolion (<https://llyw.cymru/gofynion-gwasanaeth-rhyddhau-or-ysbyty-covid-19>)
- Cronfa Cadernid Trydydd Sector gwerth £24 miliwn (<https://wcva.cymru/cy/cyllid/buddsoddiad-cymdeithasol-cymru/cronfa-gwydnwch-trydydd-sector-cymru/>)
- Cynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU (<https://www.gov.uk/government/publications/guidance-to-employers-and-businesses-about-covid-19/covid-19-guidance-for-employees>)
- Cronfa Cadernid Economaidd Cymru (<https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/gronfa-cadernid-economaidd>)
- Cyllid a ddarperir yn uniongyrchol i'r GIG fel rhan o'r ymateb i Covid

PROSES

Dosbarthu cyllid

Dosberthir cyllid trwy lwybr arferol y Gronfa Gofal Integredig (taliad chwyddo). Ni fydd proses ymgeisio/cymeradwyo, ond bydd angen i ranbarthau ddarparu amlinelliad o fuddsoddiad (gweler isod).

Llywodraethu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Deallwn y bydd yn rhaid i'r ffordd y llywodraethir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gael ei addasu yn yr amseroedd digynsail hyn fel y gellir gwneud penderfyniadau cyflym ac effeithiol. Byddem eisiau sicrwydd bod gwaith llywodraethu priodol a chymesur ar waith i sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau ymhlith yr holl bartneriaid (copïau o gytundebau ysgrifenedig diwygiedig os ydynt yn bodoli).

Amlinelliad o fuddsoddiad

Bydd angen cofnodi'r holl weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r taliad ymgodiad Covid-19 hwn ar dempled adrodd chwarterol y Gronfa Gofal Integredig. Dylid cyflwyno cynllun amlinellol ar gyfer buddsoddiad i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth a sylwadau erbyn **15 Mai 2020**. Dylai hwn hefyd gysylltu'n glir â chynlluniau rhyddhau Covid-19 cyfredol. Atodir y templed i'w gwblhau.

Hwyrach y bydd partneriaid eisiau ystyried y canlynol:

- Mae angen cysoni'r ddarpariaeth ar gyfer bodloni'r dwysâd mewn galw ledled iechyd a gofal cymdeithasol a chynllunio ar gyfer defnyddio ysbytai maes (gweler uchod).
- Pan fydd gwelyau wedi'u rhyddhau a lle mae capasiti wedi'i greu yn y system, dylai partneriaid fod yn glir ynghylch y rhesymeg sy'n sail i fuddsoddiad ychwanegol mewn capasiti.
- Yn eu hamlinelliad buddsoddi (cyfeiriwch at yr adran ar broses), dylai partneriaid gynnwys manylion am yr hyn sy'n ofynnol nawr, beth yw'r gost, a beth fydd yn cael ei ariannu'n ôl-weithredol.
- Dylai partneriaid ystyried sut y gellid ehangu cynlluniau neu eu lleihau er mwyn ymateb i fodelu a data graddfa ragamcanol y pandemig.

Monitro

Ni ddisgwylir adroddiadau monitro llawn hyd nes y bydd disgwyl i adroddiadau cyffredinol Chwarter 2 y Gronfa Gofal Integredig gael eu dychwelyd ym mis Hydref 2020. Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i bartneriaid rhanbarthol am wybodaeth dros dro sy'n disgrifio cynnydd ac effaith y buddsoddiad hwn. Byddwn yn cadw hyn i'r lleiafswm.

Gwerthuso

Bydd effeithiau'r cyllid hwn yn cael eu gwerthuso yn nes ymlaen fel rhan o werthusiad y Gronfa Gofal Integredig/y Gronfa Trawsnewid ac fel rhan o werthusiadau cyffredinol ymateb Covid-19 yng Nghymru. Felly cynghorir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i fonitro a chadw cofnodion o fuddsoddiad a'r effeithiau o ganlyniad iddo er mwyn bod yn barod am hynny.

DIWEDD

29/04/2020